Cofnodion cyfarfod rhithiol 10fed o Ionawr 2023 a gynhaliwyd am 7 yn yr hwyr.		
PRESENNOL		
Eifion Williams		
Meleri Jones	Emyr Gareth	
Elenid Glyn	Llŷr Evans	
Eleri Wyn Thomas	Cynog Prys	
Daniel Llywelyn Williams		
1.0	**GEIRIAU AGORIADOL Y CADEIRYDD AC YMDDIHEURIADAU**	
	Agorwyd y Cyfarfod yn ffurfiol gan Eifion Williams, Is-Gadeirydd y Cyngor. Derbyniwyd ymddiheuriad oddi wrth y Iwan Huws, Nel Huws a Dafydd Huws.	
1.1	Ni chafwyd cyfraniad oddi wrth y cyhoedd.	**CLERC**
1.2	Newidiadau arfaethedig i derfynau Cyflymder - trafodwyd y mater o newid terfyn 20 m.y.a. ar hyd Ffordd Caernarfon a Stryd Bangor drwy'r Felinheli. Penderfynwyd bod ochr Bangor yn dderbyniol ond bod angen sicrhau bod y cyfyngiad 20mya ochr Gaernarfon yn cychwyn ochr Gaernarfon i Ffordd Tafangrisiau. Byddai hyn yn sicrhau bod llwybrau cerdded i'r Ysgol a cherdded i safleoedd bysiau i ddal bysiau Ysgol o fewn y terfyn 20 m.y.a.. Y Clerc i anfon sylwadau'r Cyngor i Gyngor Gwynedd.	**CLERC**
1.3	Pwyllgorau - roedd y nifer o gynghorwyr fel aelodau o bwyllgorau'r Cyngor yn llai a'r rai na'r lleill. Penderfynwyd ar y Canlynol: **Cyllid, Cyflogaeth, Polisïau a Gwefan -** Iwan Huws, Dan Williams, Cynog Prys ac Elenid Glyn. **Asedau** Eifion Williams, Emyr Gareth, Dafydd Huws ac Eleri Wyn Thomas **Llwybrau Cyhoeddus, Lon Las a Phriffyrdd** Llŷr Evans, Dafydd Huws, Emyr Gareth **ac** Eleri Wyn Thomas **Y Neuadd Goffa a Chloc** Daniel Williams, Eifion Williams, Llŷr Evans a Cynog Prys, a Meleri Jones	**CLERC**
2.0	**DATGAN DIDDORDEB**	
	Dim	
3.0	**CADARNHAU GWARIANT MIS BLAENOROL A'R ADRODDIAD ARIANNOL BLAENOROL**	
3.1	Cyflwynwyd gwariant ac adroddiad ariannol y Cyngor am fis Rhagfyr 2022 gan y Clerc ac fe'u derbyniwyd.	**CLERC**
3.2	Cyflwynwyd cyllideb drafft 2023-2024trafodwyd y mater ond ni chafwyd penderfyniad ynglyn a chodi neu beidio a chodi'r praesept. Penderfynwyd ar gael cyfarfod arbennig yr wythnos nesaf i drafod y gyllideb yn fwy manwl.	**CLERC**
3.3	Costau Cynnal a Chadw'r wefan – mae costau cynnal a chadw'r wefan wedi codi ychydig, cyflwynwyd adroddiad ar y cynnydd sydd oddeutu £1.17 y mis. Roedd y cynnydd yn dderbyniol a chytunwyd i barhau a gwasanaethau Delwedd.	**CLERC**

3.4	Manylion cytundeb torri gwair heb ei dderbyn hyd yma.	
4.0	**CADARNHAU COFNODION MIS BLAENOROL A MATERION YN CODI**	
4.1	Cadarnhawyd Cofnodion mis Rhagfyr 2022.	**CLERC**
4.2	Cae Chwarae Lan y Môr - dim ymateb wedi bod i ohebiaeth ddiweddar, credir bod gwylia'r Nadolig wedi effeithio ar hyn. Y Cynghorydd Emyr Gareth yn parhau i drio cael y materion wedi eu datrys. Adroddwyd bod ffens diogelwch sydd o amgylch yr offer newydd wedi torri mewn mannau.	**CLERC**
4.3	Wi-Fi - dim ymateb wedi bod oddi wrth fenter Môn. Y Clerc i anfon atynt unwaith yn rhagor.	
4.4	Materion Y Fynwent: Bin Compost – Y Clerc wedi gwneud ymholiad gyda contractor ar gyfer ei symud o'r fynwent. Pris heb ei dderbyn i ddyddiad. Fainc Goffa - Y Pwyllgor Asedau i ystyried lleoliad a hefyd polisi gogyfer gosod mainc o fewn y fynwent. Yr argymhellion i'w cyflwyno at y Cyngor. Postyn Giât y Fynwent - roedd adroddiad wedi dod i law bod giât y fynwent ddim yn gweithio, roedd honiad bod gwrthdrawiad wedi bod i un o'r postiau - Roedd y Cynghorydd Eifion Williams wedi ymweld â'r fynwent ac nid oedd difrod i weld i'r postyn; roedd y giât yn agor a chau. Cyfarfod o'r pwyllgor angen ei drefnu.	**CLERC ASEDAU**
4.5	Bwa yn wal gynnal Ffordd Gaernarfon - dim ymateb wedi bod oddi wrth Gyngor Gwynedd, mae cydnabyddiaeth bod yr ohebiaeth wedi ei dderbyn. Y Clerc i barhau i ofyn am ymateb.	**CLERC**
4.6	Llwybr 17 - dywedodd y Clerc bod Swyddog Llwybrau yn barod i ymweld â chynrychiolwyr y pwyllgor ar safle 17. Penderfynwyd byddai'r Cynghorydd Llŷr Evans a Cynghorydd Meleri Jones yn cyfarfod a'r Swyddog ar 26 o Ionawr rhwng 1 a 3 yn y pnawn. Roedd angen adrodd hefyd i'r Swyddog am y tyfiant o eiddo sydd ar ffordd Ochr Bangor i fynediad y llwybr sydd yn atal gweledegdd defnyddwyr y llwybr wrth drio croesi'r ffordd. Hefyd mae problem dwr wyneb yn dod i'r Lon Las tu gefn i Exchange BT.	**CLERC ASEDAU**
4.7	Arwyddion ffyrdd - mae cais wedi ei wneud i ail osod arwydd y fynwent ger cyffordd newydd y ffordd i lawr at y fynwent - mae ymateb wedi ei dderbyn a bod y gwaith mewn llaw. Mae cais am arwydd toiledau wedi ei wneud i Gyngor Gwynedd ond nid oes ymateb wedi ei dderbyn i ddyddiad.	**EW**
4.8	Golau Stryd Penceunant - dywedodd y Clerc ei bod wedi trafod y mater hwn gyda Pennaeth Golau Stryd Cyngor Gwynedd ac fe gadarnhaodd bodd y lamp wedi ei thynnu i ffwrdd ar gais perchennog y tŷ er mwyn cael gwneud gwaith ar y tŷ. Pan oedd y gwaith wedi ei gwblhau nid oedd y perchennog y tŷ am weld y lamp yn ôl ar flaen y tŷ. Dywedodd y Swyddog y byddai yn archwilio'r safle er mwyn gweld os oedd safle priodol arall ar gyfer y lamp.	**CLERC**

5.0	**CEISIADAU CYNLLUNIO**	
5.1	Rhif Cais: C22/1168/20/DT Lleoliad: Tan Y Graig, Y Felinheli, Gwynedd, LL56 4JR Bwriad : Estyniadau a newidiadau yn y cefn a thu blaen yr eiddo. **DIM GWRTHWYNEBIAD**	
6.0	**CYLLID, CYFLOGAETH, PHOLISÏAU A GWEFAN**	
6.1	Gwaith ar y wefan yn parhau.	
7.0	**ASEDAU**	
8.0	**LLWYBRAU CYHOEDDUS, LÔN LAS A PHRIFFYRDD**	
8.1	Mae problem dwr wyneb ar Lon Las ac mae'r dŵr yn rhedeg i'r Marina. Y Clerc i anfon at Gyngor Gwynedd.	**EG**
9.0	**NEUADD GOFFA A CHLOC**	
9.1	Y neuadd Goffa – adroddiad llafar gan y Cynghorydd Dan Williams . Dim newid wedi bod i'r gwaith sydd ei angen ers mis Rhagfyr. Mae gwaith angen ei wneud ar y pillar ochr Bangor a disgwylir bydd dyddiad gwneud y gwaith yn cael ei benderfynu yn fuan. Mae angen rhywfaint o waith angen i'w wneud ar y llawr ochr Bangor ger y Fynedfa dân a'r drws i'r balconi. Mae angen newid y goleuadau i LED ac rydym yn disgwyl pris am rheiny gan Owen & Palmer. Bydd angen rhoi jet wash i lwybrau tu allan i'r neuadd, gobeithir trefnu dyddiad i hyn yn fuan. Mae angen adeiladu sound boards o fewn y neuadd a gobeithir bydd y gwaith yma yn gallu cael ei wneud gan rhai o aelodau'r Pwyllgor.	**DW**
9.2	Cloc - mae gwlybaniaeth i weld yn dod i mewn i'r cloc ac wedi difrodi'r trawstiau, y Cynghorydd Dan Williams am drio sylwi lle mae'r dŵr yn cael mynediad. Gobeithir trefnu dyddiad i ymweld gyda'r pensaer yn fuan.	
10.0	**CYNLLUN LLIFOGYDD CYMUNEDOL**	
10.1	Mae angen prynu bag o dywod unwaith yn rhagor. Mae'r tywod a bagiau sach ger y giât yn y Clwb hwylio. Mae gwardeiniaid llifogydd yn gwybod am y tywod a'r bagiau ac yn gallu hysbysu hyn i'r bobl sydd angen bagiau tywod pan mae risg i ddifrod i'w tai. Mae ffurflenni risg wedi newid ychydig gan Cyfoeth naturiol Cymru. Bydd y Cynghorydd Dan Williams yn gwneud y newidiadau angenrheidiol i'r asesiadau risg. Cafwyd adroddiad bod rhai o gylïau rhwng Cyffordd Bryn Ffynnon a Cyffordd Pen y Bryn wedi eu llenwi a baw a bod hyn a bod risg i unai Cwrt Menai neu dai ger cyffordd Penceunant gael llifogydd a difrod i'w tai. Y Clerc i anfon at Priffyrdd Gwynedd. Y Cynghorydd Eifion Williams am drio cael cynllun lleoliad i'r gylïau'r pentref.	**DW**
11.0	**MATERION YCHWANNEGOL**	
11.1	Cafwyd wybodaeth bod rhan o ffens llwybr Cerrig yr afon wedi diflannu a bod rhai postiau ychydig ynnu o'r bwlch	

	yma angen eu hadnewyddu. Y Cynghorydd Eifion Williams am gael pris gan Gontractor.	
	Daeth y cyfarfod i ben oddeutu 21:15	
Llofnod: *Dan Williams*		**Dyddiad:** **14/2/2023**